Gwasanaeth
**Mabwysiadu**
Cenedlaethol

National
**Adoption**
Service

# Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda’n Gilydd

Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

# Anhwylderau Ffetysol y Sbectrwm Alcohol

# FASD

Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

# FFRAMWAITH DATBLYGU A HYFFORDDI ÔL-MABWYSIADU Y GMC

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae’r deunyddiau hyn wedi’u datblygu ar ran y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer teuluoedd mabwysiadol
- Eu diben yw i ddarparu adnodd datblygu a dysgu ar gyfer mabwysiadwyr ar ôl lleoli
- Gellir defnyddio’r offer hyn gan grwpiau neu gan unigolion.
- Mae llawer o wybodaeth yn y nodiadau o dan bob sleid felly mae’n bwysig darllen y rhain hefyd gan eu bod yn darparu gymaint mwy o wybodaeth a rhai syniadau defnyddiol o ran darllen pellach.

# DEILLIANNAU DYSGU

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Erbyn diwedd y modiwl hwn bydd cyfranogwyr yn:

- Meddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o FASD.
- Gallu bod yn fwy hyderus wrth lunio barn o ran pryd y byddai’n briodol ceisio asesiad FASD ar gyfer eich plentyn.
- Ystyried yr hyn y gallai ei olygu i’ch teulu a’ch ffordd o fagu plant os oes gan eich plentyn FASD.
- Gwybod ble i fynd am fwy o wybodaeth a chyngor.

# FASD

**Anhwylderau Ffetysol y Sbectrwm Alcohol (FASD)**

“ Amrywiaeth o effeithiau niweidiol i ddatblygiad y ffetws a’r baban pan gaiff alcohol ei yfed yn ystod beichiogrwydd. Mae effeithiau niweidiol FASD, ar gyfer plentyn a’u teulu, yn para gydol oes."

(Gwefan FASD Yr Alban)

# BETH YW FASD (1)

- Mae Anhwylderau Ffetysol y Sbectrwm Alcohol (FASD) yn derm ymbarel sy'n cwmpasu sawl diagnosis.
- Yn ei dermau symlaf mae'n sbectrwm o faterion ymddygiadol, emosiynol, corfforol a niwrolegol a achosir gan amlygiad i alcohol yn ystod beichiogrwydd ac mae'r effeithiau'n para am oes.
- Amlygiad alcohol y ffetws yw prif achos ataliol o anabledd dysgu yn y DU.
- Mae tua 6000-7000 o fabanod yn cael eu geni bob blwyddyn ym Mhrydain gyda FASD – mae hyn yn cyfateb i bod 1% o'r holl blant yn debygol o gael eu heffeithio.
- Mae'r nifer yng Nghymru yn anhysbys, yn rhannol oherwydd diffyg meini prawf diagnostig eang.
- Mae yna wahanol anhwylderau o dan yr ymbarel – FAS, ARND, ARBD a PFAS

# BETH YW FAS?

- Syndrom Alcohol y Ffetws (FAS)
- Nodweddir gan y canlynol
  - Camweithrediad y System Nerfol Ganolog
  - Dysmorffoleg yr wyneb
  - Diffyg twf cyn-a/neu ôl-enedigol
  - Dim ond pan fydd cadarnhad o gysylltiad y fam ag alcohol y ceir diagnosis

# BETH YW ARND?

- Anhwylder Niwroddatblygiadol Cysylltiedig ag Alcohol
- Nodweddir gan
  - Difrod y System Nerfol Ganolog a achosir gan amlygiad alcohol cyn-geni
  - Anawsterau dysgu
  - Sgiliau cymdeithasol gwael
  - Ymddygiad anaeddfed
  - Anhawster deall achos ac effaith
  - Rheolaeth ysgogiad gwael
  - Problemau gyda'r cof, sylw a barn
  - Dim ond pan fydd cadarnhad o gysylltiad y fam ag alcohol y ceir diagnosis

# BETH YW ARBD?

- Diffygion Geni sy’n Gysylltiedig ag Alcohol (ARBD)
- Nodweddir gan
  - Anomaleddau corfforol penodol a all gynnwys organau mawr fel y galon, sgiliau ysgerbydol, golwg, clyw a sgiliau echddygol manwl/gros
  - Dim ond pan fydd cadarnhad o gysylltiad y fam ag alcohol y ceir diagnosis

# BETH YW PFAS?

- Syndrom Alcohol Rhannol y Ffetws (PFAS)
- Nodweddir gan
  - Rai arwyddion ffisegol o FAS ond nid yr ystod lawn
  - Materion Dysgu ac Ymddygiad a fyddai'n dangos difrod i'r System Nerfol Ganolog

# ARGYMHELLION DIWEDDAR AR SAIL TYSTIOLAETN

- Diweddariad ar ganllawiau Canada 2016
- FASD yw'r diagnosis
- Categori "mewn perygl" ar gyfer y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf diagnostig
- Yn cydnabod yr anhawster o ran cadarnhau amlygiad i alcohol cyn geni
- Yn adolygu arwyddion a diffiniadau niwrolegol
- FASD **gyda** Nodweddion Wyneb Sentinel (SFF)
- FASD **heb** SFF

# BETH ALL DDIGWYDD YN Y GROTH PAN FYDD MAM YN YFED ALCOHOL

- Mae'r alcohol yng ngwaed y fam yn mynd drwy'r brych i waed y ffetws.
- Ar hyn o bryd, nid yw iau'r ffetws wedi'i ffurfio'n llawn felly nid yw'n gallu hidlo'r tocsinau allan yn yr un ffordd ag y gall iau'r fam.
- Gall yr alcohol hwn yng ngwaed y ffetws ladd celloedd yr ymennydd a niweidio'r system nerfol ar unrhyw adeg o'r beichiogrwydd.
- Nid oes ffordd ddiffiniol o gategoreiddio sut y gallai alcohol effeithio ar faban heb ei eni. Byddai'n dibynnu ar gyfnod y beichiogrwydd.
- Gall defnydd o alcohol gan un fam adael y babi heb ei effeithio o gwbwl.
- Gall defnydd tebyg o alcohol mewn mam arall adael y babi gyda FASD.

# PA ARWYDDION GWELADWY ALLAI BERI I MI FEDDWL BOD GAN FY MHLENTYN FASD?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Fel gyda'r sbectrwm awtistig, mae ystod eang o arwyddion; efallai na fydd llawer o blant yn eu dangos nhw i gyd. Efallai y bydd gan rai plant rai o'r arwyddion ond NAD oes ganddynt FASD mewn gwirionedd. Mae'r arwyddion yn cynnwys:-

- Llai o allu deallusol
- Anawsterau dysgu/anabledd
- ADHD
- Problemau'r galon
- Anawsterau ymddygiadol a chymdeithasol a all fod yn barhaol ac sydd angen rhianta therapiwtig er mwyn eu rheoli
- Nodweddion wynebol neilltuol (e.e. pont trwynol fflat, clustiau "trac rheilffordd", trwyn i fyny, piltrum llyfn, gwefus uchaf tenau)
- Nodweddion ffisegol eraill

# PA ARWYDDION ANWELEDIG ALLAI WNEUD I MI FEDDWL FOD GAN FY MHLENTYN FASD?

Bydd llawer o blant sydd wedi profi trawma ac esgeulustod yn arddangos rhai o'r arwyddion hyn. Ni fydd gan bob un ohonynt FASD.

- Anawsterau dysgu
- Gweithredu ar ysgogiad
- Yn cael trafferth gyda sawl agwedd o'r ysgol
- Anawsterau wrth ddeall sefyllfaoedd cymdeithasol
- Problemau gydag iaith fynegiannol lefel uwch
- Anawsterau sylweddol gydag iaith dderbyngar
- Yn cael trafferth i ddeall cysyniadau haniaethol gan gynnwys arian, amser a mathemateg yn gyffredinol
- Problemau gyda chadw gwybodaeth, talu sylw neu ddod i farn bwyllog

Efallai na fydd rhai o arwyddion FASD yn dod yn amlwg nes bod plentyn yn dechrau yn yr ysgol uwchradd, yn taro glasoed neu bod disgwyl iddo ymwneud â rhyngweithio mwy cymhleth yn gymdeithasol.

# ARWYDDION A SYMPTOMAU YMYSG PLANT 0-2 OED

- Cylchoedd cwsg/deffro gwael
- Pwysau geni isel
- Anniddigrwydd
- Gor-sensitifrwydd
- Symudedd gohiriedig
- Anawsterau bwydo
- Methiant i ffynnu
- Ffitiau
- Oedi iaith

# ARWYDDION A SYMPTOMAU PLANT BACH

- Oedi gyda sgiliau echddygol parhaus
- Dim ofn na dealltwriaeth o ffiniau
- Anawsterau gyda hyfforddiant poti
- Gorfywiogrwydd ac yn cael ei wrthdynnu'n hawdd
- Anawsterau rheoleiddio emosiynau ac ymddygiad
- Problemau deintyddol
- Yn dal annwyd, heintiau ac afiechydon eraill yn aml
- Oedi/anawsterau lleferydd
- Gall fod yn cael stranciau hir a sylweddol
- Anawsterau ymddygiadol
- Problemau bwyta
- Anawsterau gyda chysgu

# ARWYDDION MEWN PLANT OEDRAN YSGOL

- Hawdd eu gwrthdynnu gyda rhychwant sylw byr
- Cydsymudiad gwael
- Amrywiaeth o anawsterau ymddygiadol
- Anawsterau gyda sgiliau echddygol manwl a gros
- Cael trafferth i ddeall iaith y corff a chyfathrebu di-eiriau
- Cael trafferth i wneud neu gadw ffrindiau
- Blinder
- Anhawster deall achos ac effaith

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

# SYMPTOMAU POBL IFANC YN EU HARDDEGAU

- Hunan-barch isel
- Rheoli ysgogiad gwael – gall gymryd pethau nad ydynt yn perthyn iddynt
- Problemau iechyd meddwl, e.e. pryder ac iselder
- Erledigaeth – gallant fod yn dargedau hawdd oherwydd eu bod mor agored i niwed
- Hwyliau oriog – bydd yn anodd ymdopi â bywyd bob dydd ac yn debygol o gael stranciau/ colli arni
- Analluedd i fesur ymddygiad priodol mewn lleoliadau cyhoeddus a phreifat (e.e.) iaith a ddefnyddir gyda chyfoedion ac athrawon)
- Blinder – dod adref o'r ysgol wedi blino, dan straen ac yn emosiynol
- Mae eu hoedran emosiynol yn debygol o fod yn llawer is na'u hoed academaidd

# PAM EI BOD MOR ANODD RHOI DIAGNOSIS O FASD?

- Nid oes “prawf” corfforol
- Meini prawf a chanllawiau diagnostig amrywiol
- Ychydig o ymarferwyr sy’n teimlo y gallant wneud diagnosis/  diffyg clinigau FASD
- Gall fod yn anodd cael hanes diffiniol o ddefnydd alcohol mamau biolegol yn ystod beichiogrwydd
- Gall ymarferwyr fod yn amharod i labelu plentyn gyda’r anabledd hwn sy’n arwain at stigmateiddio
- Pryderon ynghylch diffyg gwasanaethau os rhoddir diagnosis
- Mae nodweddion yr wyneb yn llai hawdd eu nodi mewn pobl ifanc ac oedolion
- Gall anawsterau ddod yn fwy amlwg mewn pobl ifanc ac oedolion

# PAM CAEL DIAGNOSIS?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- I gael cyngor ar reoli ymddygiad ac ymyriadau eraill i wella lles plant
- Er mwyn helpu teuluoedd i gynllunio ar gyfer y dyfodol
- Atal canlyniadau anuniongyrchol yr anhwylderau, a elwir yn anableddau eilaidd – e.e. materion sy'

# Y DYFODOL?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Er gwaethaf 40 mlynedd o ymchwil, mae bylchau yn parhau i fodoli
- Mae tystiolaeth yn parhau i ddod i'r amlwg i wella dealltwriaeth a sylfaen gwybodaeth FASD
- Biofarcwyr diagnostig?
- Dadansoddi cydberthynas rhwng SFF a phatrymau diffygion niwrolegol
- Gwell sgrinio, diagnosis a rheolaeth

# MAE GAN FASD RAI PETHAU CADARNHAOL HEFYD!

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Mae llawer o agweddau cadarnhaol ar bersonoliaethau a nodweddion unigolyn a FASD gan gynnwys:-

- Yn hoffi cofleidio, yn siriol a chyffyrddadwy
- gyfeillgar, rhadlon, cymdeithasgar a chyffyrddol
- Yn hapus mewn amgylchedd sy'n eu derbyn ac yn cynnig cymorth parhaus
- Yn gariadus, gofalus, caredig, pryderus, sensitif, triw, ffyddlon
- Serchog, trugarog, sensitif
- Penderfynol, ymroddedig, dyfalbarhaol
- Digymell, chwilfrydig, cyfrannog
- Egnïol, gweithgar, athletig
- Teg a chyd-weithredol
- Yn hoffi cael cais i helpu
- Llafar iawn

- Caredig gyda phlant iau ac anifeiliaid
- Yn gallu datrys problemau gyda chymorth priodol
- Meddwl yn gadarn
- Cof gweledol cryf
- Gallu dysgu drwy wneud (dysgwr cinesthetig)
- Artistig
- Cerddorol
- Sgiliau mecanyddol
- Diddordeb mewn adeiladu a garddio
- Synnwyr digrifwch da
- Mwynhau dweud straeon

# GWNEUD PETHAU'N WAHANOL

- Fel rhieni, efallai y bydd angen i chi dalu mwy o sylw i sicrhau bod arferion yn eu lle a bod plant yn cael eu helpu i baratoi ar gyfer eu gweithgareddau dyddiol.
- Gall meddwl am oedran emosiynol/cymdeithasol eich plentyn yn hytrach na'u hoedran cronolegol fod o fudd.
- Efallai y bydd angen i chi barhau i helpu plant hŷn, pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion gyda'r tasgau byw dyddiol hyn.

# DEFNYDDIO NODIADAU ATGOFFA GWELEDOL

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service











# HELPU GYDA SGILIAU TREFNU

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service







# PAM ALLAI PLENTYN FOD YN ARDDANGOS YMDDYGIAD HERIOL?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Gorlwytho synwhyraidd (e.g. torfeydd mawr, synau uchel, newidiadau i drefn arferol o ran amser bwyd)
- Gallant deimlo'n rhwystredig gyda'i hunain neu gydag eraill (gall fod o fudd i helpu plentyn i gydnabod sut mae'n **teimlo** pan fyddan nhw'n dechrau mynd yn flin neu deimlo'n llethol)
- Methu a chyfathrebu'n effeithiol yr hyn sy'n digwydd yn eu pen (efallai mai ychydig o iaith fynegiannol sydd ganddynt ond yn fwy cyffredin, eu hiaith dderbyngar sy'n anaeddfed). Efallai y byddan nhw'n ei chael hi'n anodd darllen iaith y corff – gall fod yn ddefnyddiol gwneud gwaith penodol gyda nhw ar adnabod ciwiau cymdeithasol, mynegiant yr wyneb a mathau eraill o gyfathrebu di-eiriau
- Yr angen am ysgogiad – mae gan y mwyafrif o blant a FASD ADHD hefyd. Maent yn ei chael hi'n anodd eistedd yn llonydd a chanolbwyntio heb wingo; gall rhoi rhywbeth iddyn nhw chwarae gydag ef yn yr ystafell ddosbarth, er enghraifft, fod yn ddefnyddiol iawn.

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

# SYNIADAU I HELPU














# MWY O SYNIADAU I HELPU

- Gofynnwch i blentyn ailadrodd cyfarwyddiadau yn ôl i chi yn eu geiriau eu hunain i wirio eu bod wedi deall; nid yw ail-adrodd arddull  dysgu ar y cof o reidrwydd yn gyfatebol â dealltwriaeth.
- Rhowch un cyfarwyddyd ar y tro, mewn fformat pendant; e.e. “Dywedwch wrthyf beth rydych chi’n meddwl amdano wrth i chi edrych ar y llun ohonoch chi’ch hun” yn hytrach na “Ceiniog am eich meddyliau”.
- Gallwch chi helpu plant i ddeall ffiniau corfforol/gofod personol trwy ddefnyddio tap lliw i farcio gofod plentyn wrth y bwrdd bwyta neu ddesg yn yr ysgol
- Mae rhai plant yn cael anhawster gwirioneddol i ddeall perchnogaeth ac yn aml yn mynd i drwbl am gymryd pethau sydd ddim yn perthyn iddynt. Mae angen nodiadau atgoffa rheolaidd ar y plant hyn fod rhaid iddynt ofyn cyn cymryd rhywbeth, a gellir benthyg rhai pethau ond mae angen talu am eraill.







# BETH OS OES GENNYCH BLENTYN SY’N CAEL TRAFFERTH GYDA BWYD?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Y peth pwysicaf yw ymgynghori â gweithiwr meddygol proffesiynol os ydych chi’n poeni o gwbl am faterion bwydo, gan gynnwys colli pwysau neu os nad yw’r plentyn yn tyfu.
- Efallai y bydd y plentyn yn cael problemau gyda’u atblygiad sugno.
- Efallai y byddant yn cymryd amser hir i fwyta ac yna’n chwydu eu bwyd.
- Mae’n bwysig iawn cadw at arferion llym o ran bwyd/amser bwyd.
- Dylech sicrhau eich bod yn defnyddio’r un poteli, tethi, bibiau, platiau, llwyau ac ati.
- Os yw sylw babi’n cael ei wrthdynnu yn hawdd wrth fwydo, ystyriwch fynd i wneud hynny mewn ystafell dawel, dywyllach.
- Peidiwch â gadael i’r teledu na cherddoriaeth chwarae tra bod plentyn yn bwyta.
- Ystyriwch a fydd rhai plant â phroblemau synhwyraidd yn ei chael hi’n anodd bwyta bwydydd penodol oherwyd gwead, blas ac ati.

# MAE’N HUNLLEF GWISGO FY MHLENTYN – BETH ALLAF EI WNEUD?

- Os oes ganddynt broblem gyda sgiliau echddygol manwl efallai y bydd angen help arnynt gyda botymau, sipiau, careiau.
- Efallai na fyddant yn gallu dod i farn da ynglŷn â gwisgo dillad cynnes yn y gaeaf a llai o haenau yn yr haf!
- Ystyriwch a all cyffiau, bandiau gwasg, coleri, esgidiau careiau ac ati deimlo’n rhy gaeth.
- Efallai y bydd rhai plant yn teimlo bod dillad sy’n rhy llachar yn rhy ysgogol hyd yn oed.

# CADW PLENTYN GYDA FASD YN DDIOGEL

- Mae'n debygol y bydd angen goruchwyliaeth agosach ar blentyn â FASD oherwydd yn gymdeithasol ac yn emosiynol gallant fod ar hanner eu hoed cronolegol. Mae angen i ni ddiwallu eu hanghenion diogelwch a gofal yn seiliedig ar eu hoed cymdeithasol/emosiynol.
- Efallai na fydd plentyn hyposensitif yn teimlo poen fel y disgwyl; gallant gyffwrdd â thân a pheidio a thynnu i ffwrdd yn gyflym oherwydd nad ydynt yn teimlo gwres yn y ffordd y byddai eraill yn ei wneud. Efallai na fyddant yn teimlo bod angen ychwanegu dwr oer i fath poeth wrth iddynt ymdrechu i farnu tymheredd y dwr.
- Mae'n bwysig edrych am arwyddion eraill o boen nad yw plentyn yn gallu dweud wrthym amdanynt, e.e. chwyddo, cleisio.

# NODYN ATGOFFA TERFYNOL!

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Efallai eich bod wedi gwneud y cwrs hwn oherwydd eich bod yn amau bod gan eich plentyn FASD.

Dim ond os oes tystiolaeth glir o ddefnydd alcohol mamol yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl cynnal profion genetig i ddiystyru cyflyrau eraill y gellir gwneud diagnosis ffurfiol o FASD.

Er y gall diagnosis ffurfiol helpu, rydych chi'n dal i fod yn magu'r un plentyn. Y pethau pwysicaf i'w gwneud yw

- Myfyrio ar yr hyn y gall eich plentyn ei wneud, yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud
- Ystyried PAM efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd o'i gymharu â'u cyfoedion
- Eu magu nhw mewn ffordd a fydd yn eich helpu i ddatblygu perthynas ddiogel â nhw
- Rhoi llawer o gyfleoedd ar gyfer chwarae ac adegau llawen
- Ceisio cyngor proffesiynol gan Feddyg Teulu, Ymwelydd Iechyd, Nyrs Ysgol, CAMHS, gwasanaethau cymdeithasol ac ati os oes gennych bryderon

- Mae’r cwrs hwn yn rhan o gyfres a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i gefnogi mabwysiadwyr ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.
- Gellir dod o hyd i’r rhain ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- Siaradwch gyda’ch tîm cefnogi mabwysiadu am ragor o wybodaeth